CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

26.2.21

Neges i rieni a gwarcheidwaid

Mae'r Cyngor Sir yn falch o allu adrodd bod sefyllfa'r Ynys parthed Coronafeirws wedi sefydlogi yn dilyn nifer uchel o achosion yn diweddar.

Rydym wedi bod yn cadw llygaid craff ar y sefyllfa ers ein penderfyniad Ddydd Llun (Chwefror 22) i oedi rhag derbyn plant Cyfnod Sylfaen nol i'r ysgol.

Heddiw, mae'r data lleol diweddaraf sydd ar gael yn dangos:

- gostyngiad yng nghyfradd yr achosion Coronafeirws ar yr Ynys
- gostyngiad yn y canran o brofion positif

Mae gennym hefyd, erbyn hyn, well ddealltwriaeth o'r sefyllfa sydd yn bodoli yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Wedi gwaith gyda phartneriaid, mae'n amlwg bod yr ymlediad presennol wedi'i gyfyngu o fewn yr ysbyty.

Wrth edrych ar duedd y data lleol presennol a sicrwydd na fydd yr ymlediad yn Ysbyty Gwynedd yn cael effaith ehangach ar gymdeithas, credir y bydd sefyllfa'r Ynys yn fwy cadarnhaol eto'r wythnos nesaf.

O ganlyniad, mae Ysgolion Môn yn ail-afael mewn cynlluniau i groesawu disgyblion Cyfnod Sylfaen yn ôl yn raddol o Ddydd Llun, Mawrth 1af. Y gobaith yw y bydd yr holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn ôl yn eu dosbarthiadau erbyn dydd Mercher, Mawrth 3ydd, fan bellaf.

Message for parents and guardians

The County Council is pleased to report that the Island's situation regarding Coronavirus has stabilised following a recent high number of cases.

We have been keeping a close eye on the situation since our decision on Monday (February 22) to delay the admission of Foundation Phase children to school.

Today, the latest available local data shows:

- a reduction in the rate of Coronavirus cases on the Island
- a reduction in the percentage of positive tests

We also now have a better understanding of the situation that exists at Ysbyty Gwynedd, Bangor. Following work with partners, it is clear that the current outbreak is contained within the hospital.

Looking at the trend of existing local data and assurance that the outbreak at Ysbyty Gwynedd will not have a wider impact on the community, it is believed that the Island's position will be even more positive next week.

As a result, Anglesey Schools are re-starting plans to gradually welcome back Foundation Phase pupils from Monday, March 1st. It is hoped that all Foundation Phase pupils will be back in their classes by Wednesday, March 3rd at the latest.

Bydd ysgol eich plentyn yn darparu manylion pellach ac yn cadarnhau unrhyw drefniadau penodol ar gyfer eich plentyn yn y man.

Your child's school will provide further details and confirm any specific arrangements for your child in due course.

Yn y cyfamser, bydd ysgolion yn parhau i ddarparu dysgu o bell i'r holl ddisgyblion.

In the meantime, schools will continue to provide distance learning for all pupils.

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich amynedd a chydweithred parod yn ystod cyfnod anodd dros ben. Mae pob penderfyniad a wnaethpwyd hyd yma wedi eu gwneud er lles a diogelwch plant a staff ysgolion; a bydd hyn yn parhau.

We would like to thank you as parents for your patience and continued co-operation during a very difficult time. All decisions taken to date have been made for the benefit and safety of children and school staff; and this will continue.

Bydd swyddogion y Cyngor Sir yn parhau i fonitro data lleol yn agos dros y penwythnos. Os yw'r sefyllfa yn newid er y gwaethaf, byddwn mewn cysylltiad eto cyn dydd Llun.

County Council officers will continue to closely monitor local data over the weekend. If the situation changes for the worst, we will be in touch again before Monday.

Noder: Mae mwy a mwy o achosion o'r Coronafeirws wedi eu cysylltu â throsglwyddiad rhwng cartrefi dros yr wythnosau diwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi eu hachosi o ganlyniad i deuluoedd neu ffrindiau yn ymweld â'i gilydd yn gymdeithasol.

Please note: More and more cases of Coronavirus have been linked to transmission between households over the last few weeks. Many of these have been caused by families or friends visiting each other socially.

Mae hefyd yn hanfodol bod eich plant yn osgoi cymysgu â phlant eraill o du allan i'w cartrefi neu swigen gefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol i blant o dan 11 oed yn ogystal â phlant dros 11 oed a lle mae plant yn yr un dosbarth neu swigen o fewn yr ysgol.

It is also essential that your children avoid mixing with other children from outside their homes or support bubble. This applies to children under and over the age of 11, and where children are in the same class or bubble within their school.

Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i'w gweld yma:
https://llyw.cymru/coronafeirws

The latest Welsh Government guidance can be found here:
https://gov.wales/coronavirus

Cyngor Sir Ynys Môn

Isle of Anglesey County Council